# Polisi ynghylch Costau Teithio a Chynhaliaeth

## Rheoli Pobl

Polisi ynghylch Costau Teithio a Chynhaliaeth Ebrill 2009
Diweddarwyd - EBM/ACE: 14 Ionawr 2010 a 3 Ionawr 2023
Adolygwyd: Awst 2017 (Rheolau Gweithdrefnau Ariannol/Nodyn Briffio ar Ddiogelwch)
Dyddiad adolygu: Ionawr 2026

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cwmpas ac Egwyddorion Cyffredinol

1. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (yr Awdurdod) wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac yn cydnabod, fel cyflogwr mawr, fod gennym rôl sylweddol i'w chwarae er mwyn lleihau ein hôl troed carbon ein hunain, gan gynnwys teithio busnes. Ym mis Chwefror 2019, gwnaethom ddatgan argyfwng hinsawdd ac ymrwymo i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030.

2. Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i nod Llywodraeth Cymru i gefnogi 30% o weithlu Cymru i weithio o bell. Byddai hyn yn rhoi'r dewis i fwy o bobl weithio mewn ffordd sy'n helpu eu cynhyrchiant yn ogystal â'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae manteision gweithio o bell yn cynnwys:

   - llai o amser a chostau teithio
   - mwy o hyblygrwydd a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
   - gwell cynhyrchiant
   - llai o draffig, yn enwedig ar adegau prysur
   - llai o lygredd aer a sŵn
   - cyfle i ailgynllunio canol ein trefi a'n dinasoedd

3. Mae'r polisi hwn yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer hawlio costau teithio a chostau eraill pan fyddwch yn talu costau angenrheidiol a rhai sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw yn ystod eich cyflogaeth. Os yw'r rheiny'n wahanol o gwbl i'r Amodau Cenedlaethol, yr Amodau Lleol fydd yn berthnasol. Mae'r polisi yn berthnasol i'r holl weithwyr a gweithwyr a gyflogir o dan gytundeb achlysurol. Dylai'r un egwyddorion fod yn berthnasol i staff ysgolion a gyflogir yn lleol ac argymhellir bod cyrff llywodraethu yn mabwysiadu'r polisi hwn. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i newid yn sgil hynny.

4. Egwyddor sylfaenol y polisi hwn yw y dylid ystyried teithio sy'n gysylltiedig â gwaith yn ddewis olaf. Dylid ystyried pob math arall o gyfathrebu, gan gynnwys cyfarfodydd rhithwir drwy Zoom neu Microsoft Teams, dros y ffôn, ac ati, cyn gwneud unrhyw deithio. Pan fydd angen teithio, telir am y math rhataf neu fwyaf effeithiol o deithio. Efallai mai trafnidiaeth gyhoeddus yw'r dull rhataf o deithio ond efallai nad dyna'r dull mwyaf effeithiol bob amser, er enghraifft, os nad yw amserlenni yn cyd-fynd ag amserau cyfarfodydd, neu lle gellid lleihau faint o amser a dreulir yn teithio yn sylweddol os ydych yn teithio mewn car. Yn yr amgylchiadau hyn, dylech gytuno ar y dull teithio gyda'ch rheolwr llinell ymlaen llaw. Lle gall anabledd effeithio ar eich dewisiadau teithio, mae angen ystyried hyn a thrafod addasiadau rhesymol gyda'ch rheolwr llinell. Mae enghreifftiau o adegau pan all cyfarfod "wyneb yn wyneb" fod yn briodol, yn unol â'n Canllawiau Gweithio Hybrid, yn cynnwys:

   - Os oes gofyniad statudol am gyfarfodydd "wyneb yn wyneb";
   - Lle nad oes gan fynychwyr fynediad at y dechnoleg angenrheidiol neu'r sgiliau priodol i'w defnyddio;
   - Lle gall anabledd atal rhywun rhag defnyddio technoleg i gyfathrebu;

- Er mwyn creu a chynnal perthnasoedd gwaith, e.e. gweithwyr newydd y mae angen iddynt gwrdd â chydweithwyr i gynorthwyo â'u proses sefydlu yn y Cyngor, i gefnogi iechyd a llesiant gweithiwr, i gynnal morâl tîm;
- Lle mai dim ond o leoliad sefydlog neu wyneb yn wyneb y gellir darparu hyfforddiant, e.e. hyfforddiant codi a chario;
- Rhai cyfarfodydd cysylltiadau gweithwyr lle mae'r undeb llafur a/neu'r gweithiwr yn gofyn am gyfarfod mewn lleoliad i sicrhau cynrychiolaeth deg;
- Rhai cyfarfodydd â defnyddwyr gwasanaeth;
- Os oes angen archwiliadau safle yn ystod dyletswyddau arferol;
- Rhai cyfarfodydd democrataidd ag aelodau etholedig;
- Rhai apwyntiadau Iechyd Galwedigaethol, e.e. Gwyliadwriaeth HAVS.

5. Rhaid darllen y ddogfen hon ar y cyd ag adran 11 o Reolau Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod sy'n cwmpasu costau Teithio a Chynhaliaeth, y Nodyn Briffio ar Ddiogelwch (Atodiad A) ynghylch defnyddio cerbyd preifat ar gyfer milltiroedd busnes awdurdodedig a Lwfansau Prydau Bwyd (Atodiad B). Fe'ch atgoffir bod cyflwyno hawliadau costau teithio a/neu gostau cysylltiedig anwir yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol a gallai hynny beryglu eich cyflogaeth.

6. Rhaid rhoi derbynebau i'ch rheolwr llinell ar gyfer pob hawliad. Gellir darparu'r rhain yn electronig os ydych yn gweithio o bell.

7. Dylech wirio pa mor rhesymol yw costau taith ansafonol, prydau bwyd neu aros dros nos, gyda'ch rheolwr llinell ymlaen llaw a chyn archebu neu wneud trefniadau.

8. Os nad yw'r Cyfarwyddwr neu swyddog enwebedig gwasanaeth yn credu bod y costau yn rhesymol, mae hawl ganddo i bennu uchafswm neu wrthod y cais. Yna dylech gael cyfle i ailgyflwyno eich cais yn unol â'r hyn sydd wedi'i gytuno'n rhesymol**.**

## Rôl y Rheolwr

9. Rheolwyr sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau teithio eu tîm i sicrhau mai dim ond teithiau hanfodol a wneir gan ddefnyddio'r dull mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o deithio. Nod y Cyngor yw lleihau teithio ac mae'n annog y defnydd o ddulliau teithio "gwyrddach" a dewisiadau gweithio ystwyth/hybrid lle bo hynny'n bosibl. Mae'n adrodd yn flynyddol ar ei allyriadau carbon yn sgil hawliadau am gostau teithio. Gellir gofyn i reolwyr sy'n awdurdodi gadarnhau sut y maent wedi bodloni eu hunain ynghylch pa mor rhesymol yw hawliadau eu tîm am gostau teithio mewn perthynas â thargedau Carbon Sero-net y Cyngor.

10. Dylai rheolwyr sicrhau bod aelodau'r tîm:

- wedi asesu a yw'r daith yn angenrheidiol ac na ellir cynnal y cyfarfod dros y ffôn, drwy Microsoft Teams neu ddewisiadau eraill ar-lein (gweler adran 4);
- yn defnyddio'r dulliau trafnidiaeth mwyaf economaidd a (lle bo'n bosibl) "gwyrddaf", e.e. ceir adrannol trydan, trafnidiaeth gyhoeddus;
- yn rhannu trafnidiaeth gyda'u cydweithwyr pan fyddant yn mynd i'r un cyfarfod neu ddigwyddiad, lle bo'n briodol ac yn amodol ar yr asesiadau diweddaraf o risg yn y gweithle a chanllawiau diweddaraf y Llywodraeth;
- yn rheoli eu dyddiaduron yn effeithiol fel bod modd grwpio cyfarfodydd gyda'i gilydd ar yr un diwrnod ac yn yr un lleoliad;
- yn gweithio'n ystwyth lle bo modd o'r man lle mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal;
- yn cytuno â nhw ymlaen llaw pan na ellir bodloni'r meini prawf hyn;
- yn cyflwyno hawliadau am gostau teithio yn ystod y mis ar ôl y gwariant, yn unol ag adran 11.3 o'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, gan ddarparu'r holl wybodaeth yn glir. Gellir gwrthod hawliadau os nad ydynt yn cael eu cyflwyno o fewn yr amserlen hon;
- Gellir gofyn i reolwyr sy'n awdurdodi gadarnhau sut y maent wedi bodloni eu hunain ynghylch pa mor rhesymol yw hawliadau hwyr.

11. Rhaid i reolwyr a goruchwylwyr, ynghyd â'r gweithiwr sy'n ymgymryd â gyrru sy'n gysylltiedig â busnes, sicrhau bod gennych y categori cywir o drwydded ar gyfer y cerbydau sy'n cael eu gyrru a bod y drwydded yn gyfredol. Rhaid i reolwyr gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau trwydded yrru blynyddol yn cael eu cynnal ac mae'n rhaid i chi gydweithredu â'r gwiriadau hyn. Mae siart llif sy'n disgrifio sut y gellir defnyddio'r gwasanaeth gwirio trwyddedau yn Atodiad C y Polisi Risg Ffyrdd ar Gyfer Fflyd y Cyngor, sydd ar gael i'w weld gan y Rheolwr Fflyd.

## Defnyddio'r Cerdyn Credyd Corfforaethol

12. Gall fod adegau pan fydd yn briodol defnyddio cerdyn credyd corfforaethol yr Awdurdod - cyfeiriwch at baragraff 8.17 y Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

## Lwfansau Teithio

<u>Cyffredinol</u>

13. Os mai defnyddio cerbyd yw'r dull teithio mwyaf effeithlon a chost-effeithiol, fe'ch anogir i ddefnyddio cynllunwyr llwybrau ar-lein, fel Google Maps neu AA Route Planner, ymlaen llaw i benderfynu ar y llwybr mwyaf priodol ar gyfer taith benodol. Os byddwch yn dewis defnyddio eich llwybr eich hun yn lle hynny, dim ond cost y llwybr byrraf drwy gynllunydd llwybr a delir i chi.

14. Os yw'r cyfarwyddwr neu uwch-swyddog enwebedig yn cytuno, <u>cyn</u> gwneud taith, fod dull teithio arall, e.e. trên neu fws, yn amhriodol oherwydd amser dechrau cyfarfod, amserlen anaddas neu gysylltiadau gwasanaethau

trafnidiaeth gyhoeddus, cewch awdurdod i deithio gan ddefnyddio'r dull teithio mwyaf effeithlon a chost-effeithiol, er enghraifft, llogi car, car adrannol.

15. Pan fydd mwy nag un gweithiwr yn teithio i'r un cyfarfod, cynhadledd, ac ati, ac awdurdodwyd teithio mewn cerbyd preifat, dylid trefnu iddynt rannu car pan fydd hynny'n bosibl ac yn amodol ar asesiadau risg yn y gweithle a chanllawiau diweddaraf y Llywodraeth.

16. Cydnabyddir y gall fod argyfwng neu deithiau rheolaidd gan ddefnyddio llwybrau a bennwyd ymlaen llaw pan na fydd bob amser yn ymarferol neu'n briodol defnyddio cynllunydd llwybrau a argymhellir, er enghraifft, Gofal Cartref lle mae llwybrau cleientiaid penodol. Rhaid i reolwr y gwasanaeth sicrhau bod y trefniadau teithio mwyaf effeithiol ar waith drwy ofyn am gyngor gan y tîm trafnidiaeth.

Teithio ar drên

17. Dylid teithio ar y trên gyda thocyn sydd wedi ei archebu ymlaen llaw lle bynnag y bo modd, gan y bydd hyn fel arfer yn darparu'r tocyn mwyaf economaidd, neu dylid ei brynu ar ddiwrnod y daith lle nad oes modd archebu ymlaen llaw. Gellir talu am docynnau ymlaen llaw gan ddefnyddio'r cerdyn credyd corfforaethol neu gall y gweithiwr dalu amdanynt a hawlio'r gost yn ôl. Dylid ond defnyddio gwarantau teithiau trên o dan amgylchiadau eithriadol.

18. Rhaid cael derbynebau os bydd angen unrhyw deithiau ychwanegol mewn bws neu dacsi.

19. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai swyddogion sy'n teithio gydag aelodau etholedig ar fusnes swyddogol drefnu eu taith trwy'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn arbed cymaint o arian â phosibl.

Defnyddio ceir adrannau a llogi ceir

20. Dylech geisio defnyddio'r dull mwyaf effeithiol o deithio, gan gynnwys ceir adrannol y Cyngor a llogi ceir. Efallai y bydd eich Uned Cymorth Busnes adrannol yn gallu eich cynorthwyo gyda threfniadau archebu os nodir mai hyn yw'r dull trafnidiaeth mwyaf effeithlon ac economaidd.

21. Bydd gofyn i chi wneud sesiwn ymgyfarwyddo â gyrru cyn defnyddio ceir adrannol y Cyngor. Mae hyn at ddibenion yswiriant.

22. Eich cyfrifoldeb chi yw cynnal gwiriadau cyn taith ac ymgyfarwyddo â char llog.

23. Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn meddu ar drwydded yrru ddilys cyn gwneud unrhyw deithio sy'n gysylltiedig â gwaith mewn car fflyd, car llog neu gar adrannol. Os yw eich trwydded wedi'i gwahardd, rhaid i chi hysbysu

eich goruchwyliwr/rheolwr ar unwaith, ac mae'n rhaid iddo hysbysu'r Rheolwr Fflyd, yn unol â'r Polisi Risg Ffyrdd ar Gyfer Fflyd y Cyngor.

24. Gall defnyddio unrhyw gerbyd heb drwydded yrru ddilys olygu bod eich yswiriant yn annilys (eich cerbyd eich hun) a gall arwain at gamau disgyblu.

<u>Defnyddio cerbyd personol at ddefnydd busnes</u>

25. Dim ond os nad oes trafnidiaeth arall ar gael y dylid defnyddio eich cerbyd eich hun, er enghraifft trên, car adrannol, car llog, neu lle byddai defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddefnydd aneffeithiol o amser a lle mai dyma'r dull trafnidiaeth rhataf.

26. Rhaid i hawliadau am gostau teithio sy'n defnyddio'ch trafnidiaeth eich hun fod am y llwybr byrraf sydd ar gael i'r gyrchfan ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

27. Dylech ddefnyddio eich trafnidiaeth eich hun os penderfynwyd, mewn trafodaeth â'ch rheolwr llinell, mai hyn yw'r dull trafnidiaeth mwyaf effeithlon a chost-effeithiol.

28. Mae'r Cyngor yn ad-dalu cyfraddau milltiroedd busnes cerbydau preifat ar gyfraddau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (mae hyn yn cynnwys cerbydau trydan yn unol â chanllawiau CThEF):

**Y cyfraddau presennol am bob milltir fusnes (yn ddarostyngedig i newidiadau a wneir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi)**

| Y Math o Gerbyd | Hyd at 10,000 milltir | Mwy na £10,000 |
|---|---|---|
| Ceir a faniau | 45c | 25c |
| Beiciau modur | 24c | 24c |

29. Ad-delir tollau, costau fferi a ffioedd parcio os cyflwynir derbynebau.

30. Rhaid i chi sicrhau bod yswiriant eich cerbyd yn cynnwys teithio "busnes".

31. Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn meddu ar drwydded yrru ddilys cyn gwneud unrhyw deithio sy'n gysylltiedig â gwaith yn eich cerbyd eich hun. Os yw eich trwydded wedi'i gwahardd, rhaid i chi hysbysu eich goruchwyliwr/rheolwr ar unwaith, ac mae'n rhaid iddo hysbysu'r Rheolwr Fflyd, yn unol â'r Polisi Risg Ffyrdd ar Gyfer Fflyd y Cyngor.

<u>Aros Dros Nos a Lwfansau Cynhaliaeth - y tu allan i'r sir</u>

32. Cewch hawlio treuliau rhesymol, yn amodol ar y gyfradd treuliau a nodir yn Atodiad B, ac ar gyflwyno derbynebau ategol.

33. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid archebu llety drwy eich Uned Cymorth Busnes neu'n uniongyrchol drwy'r Gwasanaethau Corfforaethol, gan ddefnyddio gweithdrefnau'r cerdyn credyd corfforaethol ond, os ydych chi'n mynychu busnes swyddogol gydag aelodau etholedig, dylid trefnu'r llety drwy'r Gwasanaethau Democrataidd.

34. Os yw prydau bwyd wedi'u cynnwys ym mhris y llety, ni thelir lwfans prydau bwyd ychwanegol.

35. Os nad yw prydau bwyd wedi'u cynnwys ym mhris y llety bydd costau unrhyw brydau bwyd a brynwyd yn cael eu talu ar gyflwyno derbynebau ac yn amodol ar gyfradd bresennol y lwfans treuliau a nodir yn Atodiad B. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn bosibl mewn achosion eithriadol a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth perthnasol.

## Teithio Ychwanegol

36. Byddwch yn gymwys i wneud cais am gostau teithio ychwanegol pan fyddwch wedi ysgwyddo gwariant ychwanegol oherwydd bod y lle gwaith yn eich contract wedi cael ei newid gan yr Awdurdod a bod costau milltiroedd cymudo ychwanegol yn cael eu hysgwyddo. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych yn gofyn am newid i'ch lle gwaith neu'n gwneud cais am swydd mewn lle gwaith gwahanol.

37. Rydych yn gymwys i gael costau teithio ychwanegol o'r dyddiad adleoli am gyfnod hiraf o 12 mis neu tan ddyddiad cynharach pan nad yw costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo mwyach neu pan maent yn lleihau, e.e. os ydych yn symud yn agosach at eich lle gwaith newydd. Os bydd symud tŷ yn golygu y byddwch yn teithio mwy o filltiroedd, ni fydd yr Awdurdod yn ad-dalu costau teithio ychwanegol.

38. Dim ond gwariant gwirioneddol ychwanegol fydd yn cael ei ad-dalu, h.y. mae'n rhaid i'r daith gael ei gwneud gennych chi. Dyma fydd y gwahaniaeth rhwng costau teithio o'ch cartref i'r hen le gwaith a chostau teithio o'ch cartref i'r lle gwaith newydd. Dyma'r costau teithio sy'n ychwanegol at y costau teithio i'r gwaith blaenorol neu'r costau ychwanegol os ydych yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

39. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn costau teithio ychwanegol, rhaid i chi deithio dros **5 milltir** ychwanegol bob ffordd (**10 milltir** y dydd) i le gwaith newydd sy'n bellach o'ch cartref.  Nid yw gweithwyr achlysurol yn gallu hawlio costau teithio ychwanegol.

40. Os ydych yn teithio i'r gwaith mewn car, cewch y costau teithio ychwanegol ar hyn y llwybr byrraf i'r lle gwaith newydd ac oddi yno, ar ôl tynnu'r 10 milltir ychwanegol cyntaf y dydd. Er enghraifft, os ydych yn teithio 25 milltir ychwanegol y dydd (taith gron) gallwch hawlio milltiroedd ychwanegol o 15 milltir y dydd, gan nad oes ad-daliad am y 10 milltir cyntaf. Os dewiswch lwybr

sy'n hirach at ddibenion cyfleustra, ni fydd y costau teithio ychwanegol o ganlyniad i'r dewis hwn yn cael eu had-dalu.

41. Dim ond costau teithio ychwanegol **gwirioneddol,** oherwydd gofynion teithio ychwanegol i le gwaith newydd ac oddi yno, fydd yn cael eu had-dalu. Os bydd dau neu fwy o weithwyr (sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau hyn) yn penderfynu teithio gyda'i gilydd ar unrhyw ddiwrnod penodol, dim ond un gweithiwr fydd yn cael ad-daliad, yn amodol ar asesiad risg yn y gweithle a chanllawiau diweddaraf y llywodraeth.

42. Ni fydd yr Awdurdod yn talu am amser ychwanegol a dreulir yn teithio.

43. Os ydych yn gweithio ar sail beripatetig, heb le gwaith contractiol, nid ydych yn gymwys i hawlio costau teithio ychwanegol o dan y polisi hwn.

44. Bydd hawliadau am gostau teithio ychwanegol yn cael eu talu ar gyfradd bresennol Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi sy'n berthnasol i bob hawliad teithio arall, fel y nodir ym mharagraff 28.

45. Ni ellir hawlio milltiroedd ychwanegol yn ystod unrhyw absenoldeb o'r gwaith.

46. Rhaid i chi hysbysu eich rheolwr llinell am unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eich cymhwysedd i hawlio costau teithio ychwanegol. Bydd unrhyw ordaliadau yn cael eu hadennill yn y gyflogres nesaf sydd ar gael.

47. Rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am wirio ac awdurdodi hawliadau. Gellir gofyn i'r Tîm Gwasanaethau Gweithwyr am gyngor os oes angen.

48. Os byddwch yn cael eich adleoli dros dro i le gwaith newydd am gyfnod o fis neu lai, mae gennych hawl i hawlio costau teithio swyddogol o'ch lle gwaith parhaol. Os ydych yn cael eich adleoli dros dro am gyfnod o fwy na mis, bydd taliadau teithio ychwanegol yn berthnasol.

49. Dylid cyflwyno hawliadau bob mis/pedair wythnos, drwy'r cyfleuster hunanwasanaeth ar-lein os yw ar gael. Os nad yw'r cyfleuster hwn ar gael, dylid cyflwyno hawliadau gan ddefnyddio'r ffurflen hawlio costau teithio ychwanegol. Yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod, dim ond os ydynt yn cael eu cyflwyno yn ystod y mis ar ôl y gwariant y bydd hawliadau yn cael eu prosesu.

## Cydraddoldeb

50. Rhaid i bob gweithiwr fabwysiadu agwedd gadarnhaol, agored a theg a gofalu y cedwir at Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod ac y caiff ei weithredu’n gyson heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oed, rhyw, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rywedd a mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

51. Yn ogystal, mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i ni 'sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' a dylid defnyddio'r egwyddor hon wrth gymhwyso'r canllawiau hyn.

52. Os oes gennych unrhyw bryderon cydraddoldeb ac amrywiaeth ynghylch gweithredu'r polisi a'r weithdrefn hon, dylech gysylltu ag aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol a fydd, os oes angen, yn sicrhau y caiff y polisi/gweithdrefn ei hadolygu yn ôl y galw.

## Os oes angen copi o'r cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â CHR@sirgar.gov.uk

**ATODIAD A**

**Nodyn Briffio ar Ddiogelwch**

Defnyddio Cerbydau Preifat ar Fusnes yr Awdurdod

Mae llawer o'r milltiroedd busnes a gyflawnir bob blwyddyn gan weithwyr yr Awdurdod yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio eu cerbydau preifat nhw eu hunain. Y 'Fflyd Lwyd' yw'r enw ar y math hwn o deithio.

Yma, telir lwfans milltiroedd sefydlog i'r gweithiwr am ddefnyddio eu cerbyd preifat nhw eu hunain. Gwneir y taliad ar sail y canlynol:

- Mae'r daith yn angenrheidiol
- Nid oedd cerbyd addas ar gael gan yr Awdurdod
- Mae'r daith wedi'i hawdurdodi gan Reolwr Llinell y gyrrwr
- Mae gan y cerbyd y lefel briodol o yswiriant busnes
- Mae'r cerbyd wedi'i drethu, mae ganddo dystysgrif MOT dilys ac mae mewn cyflwr defnyddiadwy
- Mae gan y gyrrwr drwydded ddilys i yrru'r cerbyd

Rhaid i reolwyr llinell sy'n gyfrifol am weithwyr sy'n defnyddio eu cerbydau at ddibenion gwaith (p'un a ydynt yn hawlio am filltiroedd teithio neu beidio) fodloni eu hunain bod y meini prawf ar gyfer defnyddio'r fflyd lwyd yn cael eu bodloni. Yn achos gyrwyr nad yw eu cerbydau'n cyflawni'r gofynion cyfreithiol, gallai gyrru'r cerbydau hynny olygu trosedd neu droseddau mewn perthynas â Deddf Traffig Ffyrdd 1988 ac am hynny gallent wynebu amrywiaeth o gosbau gan gynnwys pwyntiau, dirwyon, gwaharddiad neu gyfuniad o'r rhain i gyd.

Fodd bynnag, o ran y cyflogwr, gall caniatáu i weithiwr ddefnyddio ei gerbyd ar fusnes yr Awdurdod lle nad yw'n bodloni'r gofynion cyfreithiol hefyd gael ei ystyried yn drosedd, nid yn unig o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd, ond pe bai digwyddiad lle mae anafiadau neu lle mae bywydau yn cael eu colli, gallem wynebu erlyniad o dan ddau ddarn o ddeddfwriaeth wahanol, sef Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Llofruddiaeth Gorfforaethol 2007.

Er bod rhaid cofio mai'r gyrrwr sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod cerbyd yn addas i'r ffordd fawr, yn ôl y gyfraith, rhaid i'r cyflogwr hefyd gymryd rhagofalon angenrheidiol i sicrhau bod ei weithlu'n cael yr un dyletswydd gofal yn eu cerbydau nhw eu hunain â'r hyn y byddai ganddynt hawl iddo yn un o gerbydau'r Awdurdod. Felly, beth mae hyn yn ei olygu? Yn ei hanfod, os yw gweithiwr yn defnyddio eu cerbyd nhw eu hunain, rhaid i'r rheolwyr fodloni eu hunain fod y cerbyd yn cyflawni'r gofynion a nodwyd eisoes.

Dylid archifo'r holl gofnodion a data a gofnodwyd am gyfnod o 12 mis neu tan y cyfnod adnewyddu/adolygu nesaf. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yn rhaid i'r holl ddata gael ei reoli'n unol â'r Deddf Diogelu Data.

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch cynnwys y nodyn cyfarwyddyd hwn at yr un sydd wedi llofnodi isod yn y lle cyntaf.

Rheolwr Fflyd

**ATODIAD B**

## LWFANSAU PRYDAU BWYD

### Y tu allan i'r sir yn unig

O'r 1af Ebrill 2010 ad-delir lwfans dyddiol o hyd at £28 fel a ganlyn:

Lle nad oes angen aros dros nos bydd lwfans cynhaliaeth yn daladwy fel a ganlyn:

- **Brecwast -** mwy na 4 awr cyn 11.00am **£4.00**

  (pan nad yw'n cael ei gynnwys yn rhan o arhosiad dros nos)

- **Cinio –** mwy na 4 awr gan gynnwys 12 canol dydd hyd 2.00pm **£8.00**

- **Te –** mwy na 4 awr gan gynnwys 3.00pm hyd 6.00pm **£3.00**

- **Cinio gyda'r hwyr -** mwy na 4 awr gan ddiweddu ar ôl 7.00pm **£13.00**

Os oes arhosiad dros nos sy'n cynnwys brecwast fel rhan o'r llety dros nos bydd cyfradd cynhaliaeth ddyddiol o £24 ar gael.

Telir hawliadau yn seiliedig ar union wariant a ategir gan dderbynebau. Yr unig adeg y telir yr uchafswm yw pan fo'r union wariant yn gyfwerth â'r uchafswm neu'n uwch. (Gweler paragraff 6)

Pennwyd mai uchafswm cost aros dros nos yw £200 yn Llundain a £95 mewn mannau eraill a hynny o 1af Ebrill 2022. (Ni fydd y symiau uchod yn cynnwys TAW os gellir ei hadennill), ac mewn amgylchiadau arbennig, megis cadw lle mewn gwestai ar gyfer cynadleddau, bydd y Prif Weithredwr neu swyddog a enwebwyd ganddo, yn cael disgresiwn rhesymol i awdurdodi swyddog i fynd dros ben yr uchafswm a bennwyd. (Gweler paragraff 12 ar ddefnyddio'r cerdyn credyd corfforaethol)

Bydd uchafswm lwfans o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra bydd swyddog ar ddyletswydd a gymeradwywyd, o 1af Ebrill 2022.

Caiff y lwfansau uchod eu newid yn awtomatig i adlewyrchu unrhyw newidiadau yng nghynllun lwfansau'r Aelodau.